
PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN MORGANNWG

Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional Partnership

# CYLCHLYTHYR

CHWEFROR 2023



YN Y RHIFYN HWN:


CYFLWYNIAD I OFAL

CYDGYNHYRCHU AR WAITH

YMUNWCH Â'N FFORWM POBL

STRATEGAETH ANABLEDD DYSGU

CYSYLLTWCH Â NI



## IECHYD MEDDWL: MAE EICH LLAIS YN BWYSIG

Croeso i ail rifyn ein cylchlythyr ar ei newydd wedd!

Mae wedi bod yn ddechrau cyffrous i'r flwyddyn, lle'r ydym wedi bod allan yn y gymuned yn casglu barn preswylwyr am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw o ran eu lles emosiynol a'u hiechyd meddwl.

Mae hyn yn dilyn dau 'uwchgynhadledd' a gynhaliwyd ym mis Mehefin a mis Hydref 2022, a bydd yn helpu i lunio'r Strategaeth Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Ranbarthol sydd ar ddod.
Er i ni orfod ymgodymu â chenllif o law, rhew a hyd yn oed eira, cawsom groeso cynnes gan y grwpiau y buom yn ymweld â nhw (gan gynnwys bore coffi wythnosol LHDTQ+ Abertawe, Hwb Cynnes newydd Cimla, a Grŵp Cerdded Heneiddio'n Dda/Action for Elders Cyngor Abertawe).

Treuliom ddiwrnod hefyd yng nghanolfan siopa Aberafan ym Mhort Talbot yn siarad â phobl a oedd yn mynd heibio a'u hannog i gymryd rhan yn ein hymarfer ymgysylltu (gweler uchod - diolch i Gerald am gymryd rhan!).




Rydym wrth ein boddau gyda'r ymateb ac yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cyfraniadau. Caiff y rhain eu coladu a'u hymgorffori yng ngham nesaf datblygiad y Strategaeth. Byddwn yn rhoi'r diweddaraf i chi ar gynnydd y darn hanfodol hwn o waith mewn rhifyn o'n cylchlythyr yn y dyfodol!



# CYFLWYNIAD I OFAL




Y GANOLFAN GYMUNEDOL AFFRICANAIDD, ABERTAWE

Roedd pawb mewn hwyliau da yng Nghanolfan Gymunedol Affricanaidd Abertawe (ACC) ar 12 Rhagfyr wrth i grŵp o ddysgwyr ddod at ei gilydd i ddathlu cwblhau'r rhaglen 'Cyflwyniad i Ofal'. Mae'r fenter hon, sy'n cael ei hariannu drwy Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, wedi helpu i fynd i'r afael â'r angen brys am adnoddau ychwanegol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol drwy fanteisio ar grŵp na chafodd ei ddefnyddio o'r blaen - aelodau'r CGA.

Rhan o gylch gwaith y CGA yw cefnogi unigolion sy'n trosglwyddo o statws Ceiswyr Lloches i Ffoaduriaid. Mae llawer o'r rhain wedi cael profiad iechyd neu ofal cymdeithasol yn eu gwlad enedigol ac maen nhw'n awyddus i ymuno â gweithlu Cymru, ond mae angen ychydig o gefnogaeth ychwanegol arnynt i wneud hynny. Rhaglen hyfforddi cyn cyflogi yw 'Cyflwyniad i Ofal' sy'n cynnig cefnogaeth hyfforddi ar gyfer swyddi i'r rheini sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn gofal. Mae 73 o ddysgwyr wedi cwblhau'r rhaglen hyd yma, ac mae tua 30 o'r rhain eisoes wedi cael gwaith neu wedi mynd ymlaen i ymgymryd â chymwysterau pellach mewn pynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd/gofal cymdeithasol.




Dywedodd Nanya, un o'r cyfranogwyr:

> ***Diolch am beth rydych yn ei wneud i'n helpu i ymgartrefu yn Abertawe, am yr help gyda'r hyfforddiant ar-lein ac i ddod o hyd i swyddi. Gobeithio eich bod yn gwybod ein bod ni'n gwerthfawrogi'r cyfan.***

Yn ogystal â'r sesiynau hyfforddi, mae cyfres o weithdai cyflogaeth wedi'u darparu gan Gofalwn Cymru, gyda chefnogaeth barhaus wedi'i darparu gan Abertawe'n Gweithio. Mae'r fenter hon wedi cael effaith gadarnhaol ar y farchnad gofal cymdeithasol, gan sicrhau cynnydd hanfodol i'r gweithlu ar draws cartrefi gofal preswyl a gofal cartref. Y bwriad wrth symud ymlaen yw adeiladu ar y llwyddiant hwn a chyflwyno'r rhaglen ar draws ardal ehangach, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot.

Mae 'Cyflwyniad i Ofal' yn rhan o gylch gwaith Bwrdd Cydlynu Atal a Chymunedol Gorllewin Morgannwg.

# CYDGYNHYRCHU AR WAITH

Yn rhifyn olaf ein cylchlythyr rhoesom restr o'n hymdrechion dros yr haf a'r hydref 2022 i godi proffil ein gwaith ymhlith y cyhoedd yn ehangach. Aethom i ddigwyddiadau ar draws y rhanbarth gyda'r nod o dynnu sylw at gyfleoedd gwirfoddoli o fewn y bartneriaeth, fel rolau i ddefnyddwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr gofalwyr ar ein Byrddau Trawsnewid amrywiol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'n deg dweud bod lle gwaith y bartneriaeth un lle mae pethau sy'n cynnwys elfennau cymhleth yn aml yn digwydd yn gyflym, felly mae sicrhau bod gwirfoddolwyr yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n hynod bwysig. I'r perwyl hwn, crëwyd rôl **Cydlynydd Cynrychiolwyr Gwirfoddolwyr** tua diwedd y llynedd. Bydd hwn yn adnodd penodol i ddarparu cefnogaeth ymarferol i'n gwirfoddolwyr.

> **Roedd hwn yn gyfle gwych i mi barhau i fod yn rhan o'r broses swyddi gwag a thrwy hyn, teimlais fy mod yn rhan bwysig o'r broses, fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi a gwerthfawrogwyd fy nghyfraniadau innau hefyd. Hefyd, galluogodd hyn barhad i adeiladu ar ymddiriedaeth sefydledig gyda gweithwyr proffesiynol amrywiol a oedd yn cydnabod sgiliau a phrofiadau gwirfoddolwyr o fewn paramedrau cydgynhyrchu ac arferion gweithio cyfartal.**
> **- Victoria**

Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer y rôl hon ym mis Tachwedd 2022 ac yn ysbryd cydgynhyrchu, roedd dau o'n cynrychiolwyr wedi cymryd rhan yn y broses recriwtio. Mae **Mark Davies** a **Victoria Morgan-Beattie** wedi bod yn aelodau gwerthfawr o'r bartneriaeth ers nifer o flynyddoedd, felly roedd eu mewnwelediadau a'u profiadau'n allweddol o ran dewis yr ymgeisydd cywir ar gyfer y swydd.

> **Rwyf wedi mwynhau cymryd rhan yn y broses hon, ac roeddwn yn falch o ddefnyddio fy mhrofiadau proffesiynol a'm cymwysterau Adnoddau Dynol wrth fod yn aelod Siartredig o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu mewn rôl wirfoddoli ar gyfer y swydd wag yn Swyddfa Reoli'r Bartneriaeth hon. Hyd y gwn i, y swydd wag hon yw'r gyntaf i wreiddio cydgynhyrchu'n llawn fel rhan o broses recriwtio a dethol, a gobeithio y bydd y fethodoleg hon yn cael ei hystyried gyda swyddi gwag yn y dyfodol gyda'r sefydliadau niferus sy'n ymwneud â Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg. Rwy'n edrych ymlaen at gael bod yn rhan o brofiad tebyg arall. – Mark**

Ynghyd â Kelly Gillings (Cyfarwyddwr Rhaglen Gorllewin Morgannwg), daeth Mark a Victoria i benderfyniad a chynigiwyd y swydd i unigolyn gwych rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ei groesawu i'r tîm yn ddiweddarach yn y gwanwyn.

Cadwch lygad am gyflwyniad i'n recriwt newydd yn rhifyn nesaf ein cylchlythyr!

# YMUNWCH Â'N FFORWM POBL!

A fyddai gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy am Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg ac effaith gadarnhaol ein gwaith? Ydych chi wedi cael eich ysbrydoli i wirfoddoli gyda ni, neu efallai yr hoffech ddysgu mwy am sut y gallech chi gymryd rhan mewn cydgynhyrchu? Mae'r **Fforwm Pobl Gorllewin Morgannwg** cyntaf yn cael ei lansio ar **18 Ebrill 2023** yn **Stadiwm Swansea.com**, a hoffem eich gweld chi yno!




Bydd y digwyddiad yn cynnwys arddangosfa o beth o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud yn ein rhanbarth, yn ogystal â gweithdau rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud am yr hyn sy'n bwysig i chi o fewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae lleoedd yn gyfyngedig, felly archebwch eich lle nawr:

**www.eventbrite.co.uk/e/west-glamorgan-peoples-forum-tickets-551424815467**

# STRATEGAETH ANABLEDD DYSGU

Gwnaed cynnydd gwych dros y misoedd diwethaf o ran datblygiad ein **Strategaeth Anabledd Dysgu Ranbarthol**!

Ar 20 Hydref, aeth aelodau o'n tîm i ddigwyddiad 'Keep Me Healthy' yn stadiwm Swansea.com i drafod rhai o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o ddigwyddiadau cynnwys wedi'u targedu a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn.

Trefnwyd y digwyddiad gan 'Your Voice Advocacy', a gomisiynwyd gan Orllewin Morgannwg i arwain ar y gwaith ymgysylltu ar gyfer y strategaeth newydd.

Cafodd mynychwyr y digwyddiad raglen lawn o gyflwyniadau a gweithgareddau gan sefydliadau sy'n cefnogi pobl ag anabledd dysgu i ofalu am eu hiechyd a'u lles.







Ymunodd tîm Gorllewin Morgannwg ag arddangoswyr eraill yn lle marchnad y digwyddiad, lle gallai mynychwyr gael cip ar y stondinau amrywiol a rhwydweithio â'r rheini sy'n darparu ac yn derbyn gwasanaethau.

Yn ogystal â hyrwyddo'r rhaglen waith ranbarthol, roedd ein stondin wybodaeth yn cynnwys gweithgaredd ymgysylltu rhyngweithiol (a welir yn y llun).

Gofynnwyd i gyfranogwyr restru'r penawdau â thema a nodwyd yn ystod cyfnod cychwynnol yr ymgysylltu, yn nhrefn pwysigrwydd.

Roedd yn wych gweld y fath egni a brwdfrydedd ar y diwrnod, ac edrychwn ymlaen at lansiad ffurfiol y strategaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

# GADEWCH I NI GYSYLLTU...

Wyddech chi y gallwch nawr ein dilyn ar **Facebook**?

Tua diwedd 2022, gwnaethom groesawu rhai aelodau tîm newydd a fydd yn darparu cymorth cyfathrebu ac ymgysylltu pwrpasol i'r rhaglen ranbarthol. Ers y pandemig rydym wedi gwneud llawer i ehangu'r modd yr ydym yn cysylltu â phobl, yn rhithwir ac wyneb yn wyneb, a bydd cael rhywfaint o adnoddau ychwanegol yn ein galluogi i gyflawni hyd yn oed mwy yn 2023.

**Cliciwch yma** i weld ein tudalen Facebook newydd, a pheidiwch ag anghofio ein dilyn ar Twitter - **@WGlamPship.**



Am ragor o wybodaeth am Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, e-bostiwch west.glamorgan@abertawe.gov.uk neu ffoniwch 01792 633 805.
Mae'r cylchlythyr hwn ar gael mewn fformatau gwahanol - cysylltwch â ni gyda manylion eich gofynion.